COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD IAU, 24 GORFFENNAF 2025 10:00

Presennol

Y Cynghorydd AJ Williams – Cadeirydd ar gyfer y Cyfarfod

GC Haines

Presennol – O Bell

F D Bletsoe, JPD Blundell, N Clarke, S J Griffiths, M L Hughes, J Llewellyn-Hopkins, RL Penhale-Thomas, T Thomas, MJ Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

H Griffiths, A Ulberini-Williams a HJ David - Roedd y Maer ar fusnes arall y Cyngor
Y Cynghorydd Hywel Williams - Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad a Y Cynghorydd Melanie Evans - Aelod Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd)
Kelly Watson - Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol a Janine Nightingale - Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Cymunedau

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Yr Arweinydd |
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau |
| Y Cynghoydd Martyn Jones | Aelod o'r Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |
| Y Cynghorydd Paul Davies | Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod o'r Cabinet dros Adfywiad, Datblygu Economaidd a Thai |
| Y Cynghorydd Eugene Caparros | Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |

| | |
|---|---|
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Martin Morgans | Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro - Cymunedau |
| Alex Rawlin | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Kate Pask | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| Paul Miles | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol |
| Philip O'Brien | Rheolwr Grŵp – Trawsnewid, Gwasanaethau Cwsmeriaid a Phartneriaethau |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica McLellan | Swyddog Craffu |

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cynghorydd J Llewellyn-Hopkins – Eitem 4 – Rhagfarnus – Mae aelodau'r teulu i fod i dderbyn Grant Cyfleusterau i'r Anabl

## 162. Penodi Cadeirydd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Penodwyd y Cynghorydd AJ Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2025 |

## 163. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar 30 Mehefin 2025 yn gofnod gwir a chywir. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2025 |

## 164. Monitro Cyllideb 2025-26 – Rhagolwg Refeniw Chwarter 1

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafodaeth fanwl ag Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>1. Gofynnodd y Pwyllgor:<br><br>a. am ddosbarthu cylch gorchwyl yr adroddiad ar adolygu gwasanaethau fflyd i'r Aelodau;<br>b. y dylai cwmpas yr adroddiad gynnwys maint y colledion a phwysigrwydd swyddogaeth y gwasanaethau fflyd; a<br>c. pryd y gallai'r Pwyllgor ddisgwyl i'r adroddiad gael ei amserlennu.<br><br>2. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ddiweddariad i gadarnhau pryd y bydd telerau ymadael y ganolfan ailgylchu yn Llandudwg yn debygol o gael eu cwblhau a chostau tebygol unrhyw waith adfer.<br><br>3. **Gofynnodd** y Pwyllgor am y ffigur mwyaf diweddar o falansau diffyg ysgolion. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2025 |

## 165. Chwarter 4 / Perfformiad Diwedd Blwyddyn 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafodaeth fanwl ag Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y |

<table>
<tr><td></td><td>Pwyllgor yr argymhellion a’r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol canlynol:<br><br>Argymhellion:<br><br>4. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynglŷn â'r diffyg targed o ran lefelau salwch ac argymhellodd fod y mater o salwch ac arfarniadau yn cael ei gryfhau yng Nghynllun Cyflawni’r Cynllun Corfforaethol sydd wedi'i amserlennu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr.<br><br>5. Argymhellodd y Pwyllgor fod y Grŵp Archwiliad Dwfn ar gyfer y Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr yn archwilio'r cymorth sydd ar gael i weithwyr a materion staffio yn yr adrannau ariannol a chyfreithiol.<br><br>Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:<br><br>6. Gofynnodd y Pwyllgor am ddata salwch cymharol gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru pan fydd ar gael gan Data Cymru.<br><br>7. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynglŷn â chyflawnadwyedd y targed o 100% ar gyfer modiwlau e-ddysgu gorfodol a gofynnodd am ddiweddariad sy'n dangos y newid i'r Dangosydd Perfformiad ar gyfer y flwyddyn i ddod a sut y bydd e-ddysgu gorfodol yn cael ei reoli. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor i'r Aelodau gael eu hysbysu am y symud o'r hen fodel i'r model newydd.<br><br>8. Mewn perthynas â'r arolwg staff, gofynnodd y Pwyllgor:<br><br>a. am friff ysgrifenedig ar y gwaith sy'n cael ei wneud;<br>b. cadarnhad pryd y gallai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad llawn ar y pwnc; a<br>c. data sy'n dangos unrhyw gyfarwyddiaethau/gwasanaethau lle mae'r gyfradd ymateb wedi bod yn arbennig o isel.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y Penderfyniad</td><td>24 Gorffennaf 2025</td></tr>
</table>

## 166. Hunanasesiad 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafodaethau manwl gydag Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>9. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod yr Egin Ysgol Cyfrwng Cymraeg newydd sydd wedi'i chynllunio ar gyfer Porthcawl yn cael ei chynnwys yn yr adran 'ehangu cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg' o'r adroddiad.<br><br>10. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch gallu'r Cyngor i recriwtio i swyddi technegol penodol ac **argymhellodd** fod cynllun recriwtio yn cael ei ddatblygu sy'n archwilio dulliau creadigol a chynllun cynaliadwyedd ar gyfer recriwtio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2025 |

## 167. Strategaeth Ddigidol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafodaeth fanwl gydag Aelodau Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y sylw a'r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol canlynol:<br><br>**Argymhelliad:**<br><br>11. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynglŷn â'r nifer gymharol isel o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ac **argymhellodd** ceisio ymatebion gan bobl ifanc mewn ysgolion, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:** |

| | |
|---|---|
| | 12. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gopi o'r Strategaeth Ddigidol ddrafft 2025-2029.<br><br>13. **Gofynnodd** y Pwyllgor am nifer y dyfeisiau Hwb a ddyrannwyd fesul Ysgol a manylion pellach am y buddsoddiad yn y rhaglen amnewid.<br><br>14. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ddosbarthu manylion tariffau cymdeithasol band eang ar gyfer unigolion ar fudd-daliadau prawf modd i Aelodau er mwyn caniatáu iddynt roi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr yn unol â hynny. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2025 |

## 168. Gweithgor Craffu ar y Gyllideb

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad, cymeradwyodd y Pwyllgor faint, cyfansoddiad a phroses enwebu i'r Gweithgor, y Cylch Gorchwyl Drafft yn Atodiad A a Strwythur Arfaethedig y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb ac amlinelliad drafft o amserlen y cyfarfodydd yn Atodiad B. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2025 |

## 169. Diweddariad am y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith ddrafft yn Atodiad A yn amodol ar yr ychwanegiad canlynol, gan nodi'r Taflenni Gweithredu Monitro Argymhellion i dracio ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B a nododd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill yn Atodiadau C, D ac E. |

| | |
|---|---|
| | 1. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ddosbarthu Adroddiad Archwilio Cymru, *Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr* a atgyfeiriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i Aelodau'r Pwyllgor i'w ystyried a bod diweddariad ar yr adroddiad yn cael ei ychwanegu at Flaenraglen Waith y Pwyllgor ar 23 Hydref 2025. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Gorffennaf 2025 |

## 170. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Gorffennaf 2025 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon, os gwelwch yn dda.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:29.